**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 19 Gorffennaf 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh (Pennaeth Cyllid)

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

**Teitl:** **Datganiad Drafft o Gyfrifon 2016/17**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darparu trosolwg o'r Datganiad drafft o Gyfrifon 2016/17 a'r broses sy'n sail iddo.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a fydd yn cael eu cyflwyno ar 27 Medi 2017. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (gweler Atodiad 1).

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cyfrifon drafft bellach wedi eu cwblhau ac wedi'u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 13 Mehefin (wythnos yn gynt na dyddiad y llynedd sef 21 Mehefin). Roedd y cyfrifon drafft ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn a byddan nhw hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio rhwng 10 Gorffennaf a 4 Awst.

O ystyried rôl y Pwyllgor o ran cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, mae'n fanteisiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg ar y cam drafft i'w ystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Caiff gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei llunio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu cyfrifon yn gadarn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai'r Cyngor yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.